**Eitem ar yr agenda: 6**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**25 EBRILL 2005**

**ADOLYGIAD O'R DDEDDFWRIAETH AR LWFANSAU I AELODAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Cytuno ar ymateb i lythyr y Gweinidog ar 9 Chwefror (atodiad 2).

**Cefndir**

2 Ar 31 Ionawr, cytunodd y Panel i lobïo Llywodraeth y Cynulliad ynghylch roi'r pŵer iddo dalu lwfansau i aelodau annibynnol y pwyllgor safonau. Mae llythyr y Gweinidog yn cynnwys cynnig o'r fath ac felly ysgrifennais ar 16 Chwefror i gefnogi hynny.

**Cyngor**

3 Heblaw am ailddatgan y pwynt hwn, rwy'n awgrymu mai'r pedwar mater y bydd y Panel yn dymuno cyflwyno sylwadau yn ei cylch fydd:

3.1 y cynnig "na ddylai aelodau o fwy nag un awdurdod (e.e. cynghorwyr sir sydd hefyd yn gwasanaethu ar awdurdod parc cenedlaethol, awdurdod heddlu neu awdurdod tân) fod yn gallu derbyn mwy nag un lwfans cyfrifoldeb arbennig." Roedd yr awdurdod yn gadarn yn erbyn awgrym o'r fath pan roedd y rheoliadau ar gyfer lwfansau awdurdod tân dan ystyriaeth y llynedd;

3.2 y cynnig na ddylid talu lwfansau i gynghorydd y mae ei aelodaeth yn cael ei wahardd. Dylai hyn fod yn berthnasol i awdurdodau tân;

3.3 y cynnig mai dim ond ynghylch lwfansau a delir gan gynghorau y dylai Panel Taliadau Annibynnol Cymru wneud argymhellion. Nid oes yr un rheswm i'w weld pam na ddylai ei swyddogaethau gynnwys argymhellion ar lwfansau a delir gan awdurdodau tân;

3.4 diffyg gweithredu i wneud lwfansau a delir gan awdurdodau tân yn rhai pensiynadwy, sef mater y buom yn ei godi ers dwy flynedd.

4 Mae ymateb drafft yn atodiad 1 ar gyfer ystyriaeth y Panel.

**Argymhelliad**

**5** Bod y Panel yn cytuno y dylid anfon yr ymateb drafft sydd yn atodiad 1, yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau y cytunir arnynt yn y cyfarfod.

**Atodiad 1**

**Ymateb drafft i lythyr ymgynghorol y Gweinidog**

**ADOLYGIAD O REOLIADAU LWFANSAU CYNGHORWYR**

Bu Panel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ystyried llythyr y Gweinidog ar 9 Chwefror yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill a chytuno y dylid cyflwyno'r ymateb canlynol sy'n ymdrin â'r materion cyhyd ag y maent yn ymwneud ag awdurdodau tân.

Mae'r awdurdod yn siomedig fod y Gweinidog, lai na blwyddyn ar ôl i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 gael ei gwneud, wedi codi'r cwestiwn eto ynghylch a ddylai cynghorwyr sy'n derbyn lwfans am gyfrifoldeb arbennig gan eu cyngor eu hunain dderbyn lwfans ychwanegol tebyg gan gyrff eraill gan gynnwys awdurdodau tân. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn ei llythyr o'r rhesymau am gynnig y Gweinidog. Pa bolisi neu nod arall sydd gan y cynnig?

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn credu y dylai'r cyfrifoldebau ychwanegol y gallai fod gofyn i rai cynghorwyr eu cyflawni – trwy fod, dyweder, yn aelod o Gabinet yn ogystal ag aelod o awdurdod heddlu neu'n gadeirydd neu'n is-gadeirydd awdurdod tân neu awdurdod parc cenedlaethol – gael ei adlewyrchu'n deg yn eu cydnabyddiaeth ariannol. Yn wir, mae Llywodraeth Prydain yn ceisio cael trefniadau o'r fath gyda'r cynnig sydd ym mharagraff 5.101 o “Building Communities, Beating Crime” (Tachwedd 2004) y dylai’r, aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol mewn awdurdodau unedol wasanaethu fel aelod o awdurdod heddlu.

Caiff lwfans yr awdurdod tân nawr ei dalu i holl aelodau awdurdodau tân, yn ychwanegol i’r lwfans sylfaenol a delir gan gynghorau, ac mae hyn yn cydnabod yr ymrwymiad ychwanegol o ran amser yn y swydd. Nid yw'n glir beth yw'r rhesymeg dros beidio â rhoi modd i gynghorydd dderbyn dau lwfans am gyfrifoldeb – er enghraifft fel cadeirydd pwyllgor craffu cyngor ac fel is-gadeirydd awdurdod heddlu. Nid yw o reidrwydd, fel y gallai cynnig y Gweinidog ei awgrymu, yn golygu bod y cyfrifoldebau ychwanegol ar yr ail gorff yn golygu llai o lwyth gwaith yn y Cabinet neu mewn swydd gyfrifol yn eu cynghorau eu hunain.

Anaml, os o gwbl, mai'r cyngor fyddai’n gwneud y penderfyniad ynghylch pwy ddylai dderbyn y lwfans o ran ail gorff. Yr heddlu, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol sy'n dewis eu cadeiryddion a'u his-gadeiryddion eu hunain; nid yw penodiadau i awdurdodau'r heddlu a byrddau iechyd lleol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan gynghorau, er y gallant gyflwyno enwebiadau. Gallai gwrthod mynediad at lwfans a delir i gydnabod cyfrifoldebau ychwanegol gyfyngu ar y garfan o ymgeiswyr sy'n dymuno cael ei hystyried i'w penodi, a hynny'n ddiangen.

Er hynny, mae'r awdurdod yn ymwybodol nad yw cyfrifoldebau ychwanegol, sydd weithiau'n rhai trwm, megis bod yn aelod o fwrdd iechyd lleol, yn cael eu hadlewyrchu gan lwfansau ychwanegol. Yr awgrym yw y dylid mynd i'r afael â hyn trwy ystyried a ddylai bod yn aelod o gyrff megis byrddau iechyd lleol olygu lwfans ychwanegol, yn hytrach na chael gwared ar y mynediad at yr ail lwfans y gallai rhai aelodau sy'n cael lwfans am gyfrifoldeb arbennig eu derbyn am eu gwaith gydag awdurdodau'r heddlu, tân neu barciau cenedlaethol.

Ym marn yr awdurdod tân, y gofyniad canolog yw am ddull cyson o fynd ati, y gellir ei rhoi ar waith yn gyfreithlon gan reoliadau dan adran 19 o Ddeddf 1989. Nid yw llythyr y Gweinidog yn mynd i'r afael â sefyllfa cynghorwyr a allai dderbyn lwfans am gyfrifoldeb arbennig a thâl fel aelod o bob math o gyrff cyhoeddus eraill (er y gwerthfawrogir fod llawer o'r cyrff yng Nghymru sydd yn talu aelodau eu byrddau i fod i gael eu diddymu yn 2006 neu 2007). **Mae'r anghysondeb hwn a diffyg eglurhad am gynnig y Gweinidog yn arwain Awdurdod Tân Gogledd Cymru i ddod i'r casgliad nad yw'r achos dros y newid wedi cael ei wneud ac y byddai'n afresymol bwrw ymlaen fel y mae hi'n ei gynnig.**

Ar nodyn technegol, nid yw'r lwfansau a delir gan awdurdodau'r heddlu ac awdurdodau tân i'w cadeiryddion, eu his-gadeiryddion a'u haelodau wedi eu diffinio mewn deddfwriaeth fel lwfansau cyfrifoldeb arbennig. Felly, nid yw'n glir sut y gallai cynnig y Gweinidog gael ei roi ar waith yn ei ffurf bresennol.

Mae'r awdurdod yn cefnogi'r cynnig na ddylai lwfansau gael ei talu i gynghorwyr y mae eu haelodaeth wedi cael ei wahardd. Dylai darpariaeth o'r fath yn fod yn berthnasol o ran lwfansau awdurdod tân.

Mae'r awdurdod yn credu y dylid ymestyn rôl Panel Taliadau Annibynnol Cymru, os yw'n mynd i fod yn banel parhaol, i gynnwys gwneud argymhellion ar lwfansau awdurdodau tân. Nid yw'r achos dros gyfyngu'r Panel i lwfansau a delir gan cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yn unig wedi cael ei wneud.

Yn fy llythyr dyddiedig 16 Chwefror, mae'r awdurdod eisoes wedi mynegi ei gefnogaeth i ymestyn y pŵer i dalu lwfansau i aelodau cyfetholedig, megis aelodau annibynnol pwyllgorau safonau.

Yn olaf, mae'r awdurdod yn cofnodi eto yr angen am ddarpariaeth i ymestyn y cynllun pensiwn fel ei fod yn ymorol am y lwfansau a delir gan awdurdodau tân. Cododd y mater hwn gyntaf yn Hydref 2003 ac eto wrth i'r hyn ddaeth yn Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, fynd trwodd. Mae methiant Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Prydain ar y cyd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn peri siom, pan roedd cyfrwng deddfwriaethol hollol addas ar gael yn 2004. Felly, mae'r awdurdod yn ail-ddatgan ei alwad am newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu i'r lwfansau a delir gan awdurdodau tân fod yn bensiynadwy.